Comisiwn Ffiniau i Gymru

Boundary Commission for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 1: 10234 - 10246

**BCW-10234 / [redacted] / Caerdydd**

Cytunaf â'r rhan fwyaf o'r newidiadau arfaethedig ond credaf fod cynnwys Preseli â Cheredigion, paru Cwm-tawe â Brycheiniog a Sir Faesyfed, a chysylltu Bangor ag Aberconwy, oll braidd yn rhyfedd. Dywedaf hyn gan fy mod yn teimlo bod yr ardaloedd hyn yn arbennig yn rhy wahanol o ran eu blaenoriaethau, ac na fydd ymgyrchu yn Nhawe, er enghraifft, yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i bobl Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae hyn hefyd yn wir am bobl yn Arfon ac yng Nghonwy. Bangor yw'r brif ganolfan ddinesig ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr yng Ngwynedd, ac nid yw cynnwys Conwy, sy'n ardal lewyrchus iawn, yn gwneud synnwyr i mi. Rwy'n gwerthfawrogi bod hon yn dasg anodd a bod angen taro cydbwysedd… ond credaf nad yw'r ffiniau arfaethedig, fel y maent, yn adlewyrchu'n llawn anghenion rhai o'r ardaloedd sy'n cael eu taflu at ei gilydd. Byddai'n well i ddemocratiaeth pe gellid ailymweld â'r rhain ar lawr gwlad gan siarad â phobl leol yn uniongyrchol wyneb i wyneb. Diolch

**BCW-10235 / [redacted] / Penarth**

Rydym yn talu'r dreth gyngor i'r Fro sy'n ffafrio unrhyw le yn rheolaidd ond Penarth. Ceir rhaniad daearyddol naturiol rhwng Penarth a Chaerdydd ~ sef afon! Mae gennym fwy yn gyffredin â'r Fro na De Caerdydd. Rydym yn cael ein difreinio'n gyson gan y cyswllt ffug hwn!
n gywir,

**BCW-10236 / [redacted] / Machynlleth**

Annwyl Gomisiynwyr,
Mae'n warthus na chynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn mewn modd mwy cyhoeddus, gan felly atal etholwyr rhag rhoi adborth ar y cynigion.
A minnau newydd ddarganfod yr ymgynghoriad hwn trwy ddamwain llwyr mewn neges ar Twitter, mae'n dangos mai proses ffug yw hon sy'n esgus cynnal cyfranogiad democrataidd. Yn enwedig wrth ystyried bod Cymru ar fin colli bron i draean o'i ASau ac mae'r ffiniau'n cael eu hail-lunio yn y fath fodd fel eu bod yn uno etholaethau sy'n pleidleisio dros y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn bennaf, neu'n eu gwahanu ar draws llinellau etholaethau yn y fath fodd fel eu bod yn rhoi mantais etholiadol i'r Blaid Geidwadol mewn system y cyntaf i'r felin. Mae'r gostyngiad hwn mewn etholaethau yng Nghymru ynghyd ag ail-lunio ffiniau yn achos o gyffindwyllo amlwg. Er cywilydd!
Yr eiddoch yn gywir, [redacted]

**BCW-10237 / [redacted] / Llandrindod**

Etholaeth wledig yng nghanolbarth Cymru yw Brycheiniog a Sir Faesyfed.
Ceir llawer o faterion cymhleth yn gysylltiedig ag ardal wledig ac mae angen i'n AS weithio â'r rhain.
Byddai etholaeth arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe yn newid y cydbwysedd i gynnwys ardaloedd mwy trefol a diwydiannol yng Nghwm-tawe. Fy mhrif bryder yw y byddai hyn yn gwanhau effeithiolrwydd yr AS a byddai llai o gynrychiolaeth i'r gymuned wledig.

Fel un o breswylwyr Brycheiniog a Sir Faesyfed, rwyf wedi byw mewn sawl rhan o'r ardal ac nid wyf erioed wedi teimlo cysylltiad â'r rhai sy'n byw yn y cwm hwnnw. Teimlwn fod mwy o gysylltiad â chymunedau Glyn Ebwy neu Ferthyr nag ardal Cwm-tawe.

Byddai lleoedd fel Llanymddyfri yn gwneud mwy o synnwyr i'w cynnwys o fewn y ffin gan fod hon nid yn unig yn ardal wledig o hyd ond mae ganddi lawer o gysylltiadau â gweddill Brycheiniog a Sir Faesyfed megis rheilffordd Calon Cymru.

Wrth greu ffin, ystyriwch y pethau hyn. Byddai symud i gynnwys ardal Cwm-tawe yn hytrach nag ardal wledig fel Llanymddyfri yn dinistrio ardal wledig Brycheiniog a Sir Faesyfed ac yn golygu y byddai ein AS wedi'i wanhau ac yn methu cynorthwyo'r cymunedau gwledig yn llawn.

**BCW-10238 / [redacted] / Aberpennar**

Mae'r ffiniau arfaethedig newydd yn gosod trefi Aberpennar ac Abercynon, yn ogystal â threfi llai, o fewn etholaeth Pontypridd.

Mae hyn yn mynd yn gwbl groes i ddaearyddiaeth leol, gan ei fod yn hollti Cwm Cynon mewn ffordd ddisynnwyr a niweidiol. Mae hefyd yn mynd yn groes i ddiwylliant a chymdeithas leol, gan fod cysylltiadau cymunedol cryf rhwng holl drefi Cwm Cynon, llawer mwy na'r cysylltiadau rhwng trefi Cwm Cynon isaf a Phontypridd. Ar ben hynny, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghwm Cynon yn dangos gwahaniad clir oddi wrth Bontypridd, gan fod y gylchfan sy'n cysylltu ffordd yr A4059 â ffordd yr A470 yn gwasanaethu fel rhwystr trafnidiaeth rhwng y ddwy ardal.

Yn gryno, nid yw'r cynnig i rannu Cwm Cynon yn ddwy yn gwneud unrhyw synnwyr daearyddol, diwylliannol na chymdeithasol, ac fe'ch anogaf yn gryf i ailystyried y newid hwn i'r ffiniau sy'n bygwth dieithrio'r ymdeimlad cymunedol sydd wedi bodoli yn y cwm hwn ers canrifoedd.

**BCW-10240 / [redacted] / Abertawe**

Mae cynnwys Cwm-tawe gyda Brycheiniog a Sir Faesyfed yn ddirgelwch.

Nid oes gan yr ardaloedd hyn unrhyw beth yn gyffredin o ran diwylliant, diwydiant a daearyddiaeth.

Bydd Cwm-tawe yn cael ei ddiystyru a'i anwybyddu gan fod yr holl bŵer wedi'i ganoli yn Llandrindod.

Bydd y cynnig hwn yn ynysu'r cyhoedd ymhellach ac yn arwain at lai o ymgysylltiad ac at ddifreinio o ran materion gwleidyddol.

**BCW-10241 / [redacted] / Bangor**

Mae'r newid arfaethedig i ddileu etholaeth bresennol Arfon yn annerbyniol.

Mae etholaeth arfaethedig Bangor Aberconwy yn ddiffygiol am y rhesymau canlynol

Mae demograffeg Bangor a Bethesda yn fwyafrif sy'n siarad Cymraeg, o gymharu ag Aberconwy sydd ar lefel gyfartal. Mae gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol lluosog rhwng Bangor/Bethesda a Llandudno heb lawer o gyffredinedd neu glystyrau dwysedd poblogaeth ethnig.

Yn syml iawn, ym Mangor a Bethesda rydym yn uniaethu'n agosach â Chaernarfon a Llanberis na phobl dda Llanrwst a Llandudno a bydd gallu cysylltu ag aelod etholedig mewn etholaeth mor fawr yn llawer anoddach i'r etholwyr hynny ym Mangor a Bethesda nag y mae ar hyn o bryd o fewn y ffiniau presennol.

Ystyriwch hyn fel gwrthwynebiad ffurfiol a gyflwynir yn briodol.

**BCW-10242 / [redacted] / Gorllewin Clwyd**

Oddi wrth: [redacted]
Anfonwyd: 19 Hydref 2022 11:24
At: Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>
Pwnc: Newidiadau arfaethedig i gynrychiolaeth pleidleiswyr Cymru

Foneddigion.
Os yw'r sylwadau hyn yn rhy hwyr, mae'n ddrwg gennyf, ond teimlaf reidrwydd i ysgrifennu fy ngwrthwynebiad.
Mae'r newidiadau arfaethedig, yn seiliedig ar nifer gwirioneddol yr etholwyr mewn ardal, gan greu 'cynrychiolaeth gyfartal' ar gyfer yr holl ASau, yn syniad sy'n gweithio mewn ardaloedd â dwysedd uchel o boblogaeth, ond teimlaf ei fod yn groes i fuddiannau etholwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gan ei fod mewn gwirionedd yn lleihau eu gallu i ddylanwadu ar y Senedd.
Rwy'n byw yn etholaeth Gorllewin Clwyd, sef cymysgedd o ardaloedd arfordirol a gwledig sy'n ffurfio'r etholaeth Seneddol bresennol. Hyd yn oed â'r newidiadau arfaethedig, ni chredaf y byddai fy ngallu i geisio cynrychiolaeth drwy fy AS yn cael ei effeithio'n andwyol oherwydd bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw mewn datblygiadau rhuban arfordirol, ond ni ellir dweud yr un peth am y rhai sy'n byw mewn ardaloedd/etholaethau gwledig/ffermio, sef y rhan fwyaf o'r ardal ddaearyddol a adwaenir fel Cymru. Yma, byddai effaith y newidiadau arfaethedig hyn arnynt yn niweidiol ac yn annemocrataidd.
Mae gosod rheol ar gyfer poblogaeth yn dileu rhai mesurau diogelu sydd eu hangen ar yr etholwyr hyn. Yn sgil y gostyngiad hwn yn niferoedd yr ASau, h.y. y newidiadau arfaethedig, byddai eu gallu i effeithio ar newidiadau a gynigir ac y pleidleisir arnynt yn y Senedd yn cael ei leihau'n sylweddol, yn uniongyrchol o ganlyniad i'r newidiadau 'democrataidd' hyn. Mae'r gostyngiad arfaethedig yn niferoedd yr ASau sy'n eu cynrychioli yn effeithio'n sylweddol ac yn anghymesur ar eu gallu i wrthwynebu neu gefnogi newidiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw neu ar eu bywoliaeth.
Mae'r gostyngiad hwn mewn cynrychiolaeth yn groes i nodau ac amcanion cymdeithas ddemocrataidd lle mae cynrychiolaeth deg yn cyfrif ac nid niferoedd a ddyrennir yn fympwyol.
Mae gorfodi dyrannu ASau ar sail niferoedd yn lleihau gallu'r ASau hynny i adlewyrchu'n gywir y bobl y mae'n rhaid iddynt eu cynrychioli, felly bydd pobl sy'n byw o fewn y mwyafrif o ardal ddaearyddol Cymru heb gynrychiolaeth ddigonol.
Diolch
Cofion

[redacted]

**BCW-10243 / [redacted] / Aberdâr**

Mae'n rhaid y byddai'n gwneud synnwyr i symud Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd naill ai i ardal Merthyr Tudful neu i ardal Pontypridd. Nid wyf yn deall rhannu Cwm Cynon yn Aberpennar.

Sut mae Rhondda yn sefyll ar ei ben ei hun, mae'n rhaid y dylai fod yn rhan o ardal Pontypridd.

**BCW-10244 / [redacted] / Caerfyrddin**

Rwy'n meddwl bod darparu'r fenter arfaethedig o ddarparu llai o etholaethau yn syniad gwych.

Mae torri costau gwariant cyhoeddus yn werth yr ymdrech.

**BCW-10245 / [redacted] / Caerffili**

O ran etholaeth newydd arfaethedig Caerffili, cytunaf â'r argymhellion i gynnwys Cefn Fforest, Pengam, Maesycwmer a Phontllanfraith. Mae'r etholaeth newydd arfaethedig yn cynnwys wardiau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae hyn yn llawer gwell nag ymuno â wardiau yng Nghasnewydd.

**BCW-10246 / [redacted] / Wrecsam**

Pam ei newid? Nid wyf yn meddwl y dylai fy ardal i, sef Rhiwabon/Y Waun, gael ei thynnu allan o ardal Wrecsam, does dim yn gyffredin â'r ardal i'r de.

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022